# Cynnig i sefydlu ysgol arbennig newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Ngwersyllt

Dogfen Ymgynghori Statudol

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu Saesneg ar gais. Mae hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD BSL a CD sain ar gais. I wneud cais am y ddogfen hon mewn fformat neu iaith arall, anfonwch e-bost at ALNschoolconsultation@wrexham.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR.

**Cynnwys**


**Rhan A - Pam mae newid yn cael ei ystyried? ..... 4**

Rhagair gan y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar ..... 4

Cyflwyniad ..... 5

Pam mae angen newid? ..... 5

Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu? ..... 5

**Rhan B - Opsiynau ..... 5**

**Rhan C - Effaith y Cynnig ..... 6**

Beth yw'r manteision posib? ..... 6

Beth yw'r anfanteision posib? ..... 6

Camau Lliniaru ..... 7

Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision ..... 7

**Risgiau ..... 7**

**Goblygiadau ar Ddarparu Adnoddau Addysg / Ariannol ..... 7**

**Goblygiadau i’r Corff Llywodraethu ..... 7**

**Goblygiadau ar Staffio ..... 8**

**Goblygiadau ar Gludiant ..... 8**

**Cynaliadwyedd ..... 8**

**Cefnogi'r Gymuned ..... 8**

**Effaith ar Ysgolion Eraill ..... 8**

**Ansawdd a Safonau mewn Addysg ..... 8**

**Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg ..... 9**

**Asesiadau Effaith ..... 9**

Asesiad Effaith Integredig ..... 10

Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ..... 10

Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned ..... 10

Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth ..... 10

**Rhan D - Y Broses Ymgynghori ..... 11**

Pwy fydd yn rhan o’r ymgynghoriad? ..... 11

Amserlen o Ddyddiadau Allweddol ..... 13

Y Cyfnod Ymgynghori ..... 13

Ystyried eich Barn ..... 13

Cyfarfodydd Ymgynghori ..... 14

Amserlen y Sesiynau Galw Heibio ..... 14

Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc ..... 14

Adroddiad yr Ymgynghoriad ........................................................................ 15
Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol ........................................................................ 15
Cyfnod Gwrthwynebu Statudol ........................................................................ 15
Penderfynu ar y Cynnig ........................................................................ 16
Hysbysiad o'r Penderfyniad ........................................................................ 16

# Rhan A - Pam mae newid yn cael ei ystyried?

**Rhagair gan y Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar**
Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfrifoldeb statudol i hyrwyddo darpariaeth addysg effeithiol o ansawdd uchel. Rhan o'r cyfrifoldeb hwn yw adolygu'r nifer a'r math o leoedd ysgol er mwyn sicrhau bod lleoedd addas a digonol ar gael mewn ysgolion er mwyn gwella cyfleoedd i ddysgu a darparu addysg yn effeithlon.

Rydym yn rhoi dysgwyr wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym yn gwahodd syniadau gan y gymuned wrth i ni ddatblygu cynigion penodol. Trwy wrando ar farn y rhai yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau, gallwn wneud penderfyniadau gwell a gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni'r newid sydd ei angen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Wrecsam yn cyflawni'r gorau y gallant.

Ein gweledigaeth:

*Rydym am i bob dysgwr fod a dod y gorau y gallant fod a meddu ar y dyheadau uchel, yr hyder, y cyfleoedd a'r cymwysterau i gyflawni eu potensial.*

Yn ymarferol, mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sefydlu darpariaeth sy'n adlewyrchu patrymau newidiol o angen a'r galw am addysg brif ffrwd ac arbennig.

Mae'r rhaglen uchelgeisiol hon ar gyfer ysgolion newydd a gwell yn rhoi sylw i newidiadau deddfwriaethol mewn addysg, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Mae ein rhaglen yn cynnwys cyfleusterau newydd a gwell mewn adeilad o'r radd flaenaf i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Bydd yr ymgynghoriad yn dilyn canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.  Bwriad y wybodaeth yn y ddogfen hon yw egluro cynigion ar gyfer y ddarpariaeth newydd a chefnogi'r broses ymgynghori.

**Karen Evans**

**Prif Swyddog, Addysg ac Ymyrraeth Gynnar**

**Cyflwyniad**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig canlynol:

Sefydlu ysgol arbennig newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Ngwersyllt.

Ar ôl ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig hyn, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynnig.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau y bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn eu hystyried wrth benderfynu sut i fwrw ymlaen.

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ar 2 Mehefin 2026 a bydd yn dod i ben ar 16 Gorffennaf 2026.

**Pam mae angen newid?**
Mae gan y Cyngor hanes cryf o ddiwallu ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gyda chontinwwm o ddarpariaeth arbenigol. Mae llawer o blant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r awdurdod yn parhau i weithio gydag ysgolion prif ffrwd i fod yn fwyfwy cynhwysol ac ymatebol i ystod eang o anghenion.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am leoedd ysgol arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi codi yn Wrecsam. Mae angen lleoliad mwy arbenigol ar nifer sylweddol o blant er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu a lles.

Trwy gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd arbennig mewn ysgolion. Mae gan rai plant anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (ICEM) sy'n golygu eu bod yn cael trafferth rheoli eu hemosiynau, eu hymddygiad a'u rhyngweithiadau cymdeithasol. Mae hyn yn effeithio ar eu dysgu a'u perthnasoedd. Gall anawsterau ICEM ddeillio o drawma, gorbryder, ADCG neu heriau eraill. Mae plant sydd ag anghenion ICEM angen amgylcheddau dysgu meithringar, cymorth gyda'u sgiliau cymdeithasol ac ymyriadau therapiwtig i'w helpu i deimlo'n ddiogel a bod pobl yn eu deall.

**Beth fyddai'r cynnig hwn yn ei olygu?**
Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd yr awdurdod lleol yn gallu cwrdd yn well â'r galw cynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Byddai'r ysgol newydd yn ysgol arbennig cyfrwng Saesneg, gydag uchafswm capasiti o 42 o leoedd disgyblion, ar gyfer dysgwyr 3-11 oed sy'n cyflwyno anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (ICEM). Y safle a gynigir yw Noddfa, Lôn Dodd, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4NT. Byddai'r ddarpariaeth yn cael ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd, yn debygol o fod ym mis Medi 2027.

# Rhan B - Opsiynau
Wrth ddatblygu opsiwn a ffefrir, mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau amgen.

**Opsiwn 1 - Parhau â'r Sefyllfa Bresennol**
Wedi'i ddiystyru oherwydd:

- Mae galw cynyddol gan ddisgyblion ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol yn rhoi pwysau sylweddol ar yr awdurdod i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.

**Opsiwn 2 - Cynyddu'r ddarpariaeth o fewn lleoliadau prif ffrwd**
Wedi'i ddiystyru oherwydd:

- Effaith ar ddysgwyr prif ffrwd oherwydd anghenion sylweddol a chymhleth disgyblion gydag anawsterau iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol cymhleth.
- Mae disgyblion ag anghenion penodol angen lleoliadau arbenigol a chymorth wedi'i deilwra i gynorthwyo eu dysgu.
- Mae mwy o waith cymorth i deuluoedd mewn lleoliad arbenigol yn helpu i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed.

**Opsiwn 3 - Creu darpariaeth ADY newydd ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.**
Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

## Rhan C - Effaith y Cynnig

### Beth yw'r manteision posib?

Bydd gan y ddarpariaeth arbenigol newydd y manteision canlynol:

- Mwy o fynediad at addysg arbenigol i ddisgyblion yn ardal Wrecsam ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.
- Cyfleusterau dysgu cynaliadwy a gwell i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.
- Darpariaeth arbenigol ac adnoddau arbenigol gyda gwell mynediad at gyfleusterau fel ystafelloedd synhwyraidd ac amgylcheddau dysgu cynnwrf isel sy'n cefnogi anghenion pobl ifanc sy'n defnyddio'r adeilad.
- Gwell cyfleoedd bywyd hirdymor i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.
- Llai o leoliadau a phontio, sy'n golygu y bydd disgyblion yn gallu aros yn y lleoliad am gyfnod hirach gyda gweithwyr cymorth cyson a theithiau / trefniadau cludiant cyson.
- Hyblygrwydd i addasu i anghenion newidiol a mwy o alw.
- Gwell cyfleoedd ar gyfer gweithio amlasiantaethol, gan gynnwys mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.
- Adnoddau wedi'u targedu'n fwy effeithlon.
- Ategu gweledigaeth Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol Wrecsam i ddarparu darpariaeth statudol ddigonol a hyblyg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.

### Beth yw'r anfanteision posib?

Gallai'r ddarpariaeth arbenigol newydd olygu:

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt.

**Camau Lliniaru**

- Bydd y pontio'n cael ei gynllunio'n ofalus gyda mecanweithiau cymorth priodol ar waith i helpu disgyblion i addasu i'r lleoliad newydd.
- Bydd digon o amser i gynllunio a chefnogi disgyblion i bontio o un ddarpariaeth addysgol i'r llall, gan gynnwys dechrau graddol i roi amser i ddysgwyr addasu.
- Bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth yn parhau i gael eu cefnogi o ran trefniadau a chostau cludiant.

**Crynodeb o'r Manteision a'r Anfanteision**

Barn y Cyngor yw bod manteision hirdymor y cynnig a amlinellir uchod yn drech nag unrhyw anfanteision. Bydd unrhyw risgiau posibl yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n ofalus lle bynnag y bo modd.

## Risgiau

Mae'r cynnig hwn yn amodol ar y broses ymgynghori a'r cyfnod hysbysu statudol dilynol. Os bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Statudol a fydd yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn cyfnod o 28 diwrnod.

Os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.  Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

Bydd yr holl risgiau posibl yn cael eu monitro fel rhan o Strategaeth Rheoli Risg Ysgolion Cyngor Sir Wrecsam. Drwy fonitro a sicrhau dull cadarn o ymdrin ag unrhyw risgiau ac anfanteision, gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, athrawon a staff cymorth.

## Goblygiadau ar Ddarparu Adnoddau Addysg / Ariannol

Nid oes unrhyw gyllid cyfalaf yn cael ei geisio mewn perthynas â'r cynnig hwn. Mae'r costau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad yn fach. Mae safle presennol yr ysgol wedi'i adnewyddu yn flaenorol gan ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i optimeiddio amgylcheddau dysgu a hyrwyddo cynhwysiant i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd goblygiadau o ran cyllid refeniw unwaith y bydd yr ysgol newydd yn agor a fydd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla ariannu gymeradwy. Ar hyn o bryd mae diffyg lleoedd ysgolion arbennig yn Wrecsam, a bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod digon o leoedd lleol i'r rhai sydd eu hangen. Os na fydd y ddarpariaeth yn cael ei chynyddu ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol, efallai y bydd yn rhaid iddynt deithio allan o'r sir a / neu gael eu lleoli yn y sector annibynnol i dderbyn yr addysg arbenigol sydd ei hangen arnynt. Byddai hyn ar gost sylweddol i'r Cyngor.

## Goblygiadau i'r Corff Llywodraethu

Byddai Corff Llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu os bydd y cynnig yn mynd rhagddo. Byddai'r Corff Llywodraethu dros dro yn gyfrifol am gymryd camau priodol cyn sefydlu'r ysgol newydd, a fyddai'n cynnwys cytuno ar strwythur staffio. Byddai'r Corff Llywodraethu dros dro yn parhau i weithredu nes bod Corff Llywodraethu parhaol yr ysgol newydd yn cael ei sefydlu.

## Goblygiadau ar Staffio

Byddai proses ymgynghori briodol yn cael ei chynnal gyda'r holl weithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur mewn perthynas â'r strwythur staffio newydd. Bydd y strwythur staffio yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion cymhleth y disgyblion. Bydd hyn yn llywio cymhareb staffio a gweithio amlddisgyblaethol gyda phartneriaid. Bydd rhaglen gynefino gynhwysfawr ar gyfer staff yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gefnogi'r plant a fydd yn defnyddio'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

## Goblygiadau ar Gludiant

Bydd cludiant i'r disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth hon yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Yn unol â pholisi cludiant ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cludiant. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwnnw. Fel gydag unrhyw ddarpariaeth ysgol, gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Bydd gofynion cludiant a pharcio yn cael eu hystyried yn ofalus.

## Cynaliadwyedd

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030, bydd prosiectau ysgolion sy'n cynnwys adnewyddu neu adeiladu o'r newydd yn cynnwys nodweddion carbon isel, ynni-effeithlon ac arloesol i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu Sero Net.

## Cefnogi'r Gymuned

Ein nod yw darparu lle diogel, cynnes ar gyfer grwpiau cymunedol a gweithgareddau wedi'u trefnu o fewn ein hysgolion a lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymunedau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm sy'n gweithio ar Ysgolion Bro i sicrhau dull cydgysylltiedig, gan ddarparu mannau cynhwysol sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi a gwella lles i deuluoedd a dysgwyr yn ein cymunedau.

## Effaith ar Ysgolion Eraill

Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth yn y sir sy'n diwallu anghenion y garfan benodol hon o blant yn Wrecsam yn ddigonol. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn cael eu lleoli mewn ysgolion arbenigol y tu allan i'r sir neu eu cefnogi trwy drefniadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY). Mae'r ysgolion arbennig y tu allan i'r sir yn cael eu defnyddio gan sawl Awdurdod Lleol sydd hefyd yn ceisio rheoli cynnydd mewn angen. Ni fyddem yn symud disgyblion sy'n mynychu darpariaeth y tu allan i'r sir ar hyn o bryd pe bai hynny'n diwallu anghenion y plentyn / person ifanc.

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Estyn i fonitro perfformiad ysgolion a chefnogi gwelliant mewn ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc Wrecsam.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar y Senedd ond mae'n cael ei arian gan Lywodraeth Cymru dan Adran

104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darpariaeth mewn ysgolion a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddangos effaith debygol y cynigion ar ansawdd:

- Safonau/Dysgu
- Lles ac Agweddau at Ddysgu
- Profiadau Dysgu ac Addysgu
- Gofal, Cymorth ac Arweiniad
- Arwain a Rheoli

Fe wnaeth ymweliad monitro diwethaf Estyn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ym mis Gorffennaf 2023 dynnu sylw at y canlynol:

- Mae swyddogion wedi sefydlu sawl dull defnyddiol sy'n cefnogi arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau i sicrhau gwelliant.
- Bellach, mae gan yr awdurdod lleol afael cadarnach ar gryfderau a gwendidau cyffredinol ei ysgolion, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a darpariaeth.
- Mae swyddogion ar draws y gwasanaeth yn angerddol ac wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau parhaus yn y ddarpariaeth a'r canlyniadau i ddisgyblion.
- Mae swyddogion yn gweithio'n dda gydag ysgolion ar gyfer datblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan o ran iechyd a lles emosiynol i gryfhau trefniadau ar gyfer disgyblion ymhellach.
- Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull defnyddiol, systematig o werthuso gwasanaethau addysg a chynllunio ar gyfer gwella. Mae cynlluniau i wella gwasanaethau addysg yn glir ar lefelau strategol a gweithredol, ac mae camau gweithredu wedi'u targedu'n briodol at feysydd sydd angen eu gwella fwyaf.

Wrth gynnig newidiadau o'r math hwn i ysgol, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyfeirio at yr adroddiad Estyn diweddaraf ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad. Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgol er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi’r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Yn dilyn arolwg, mae Estyn yn cyhoeddi adroddiad ac yn darparu argymhellion i ysgolion ar gyfer gwella. Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud â darpariaeth newydd, nid oes adroddiad Estyn i gyfeirio ato.

## Effaith y Cynnig ar Ansawdd a Safon Addysg

Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn gryf gyda ffocws cadarn ar les a dysgu disgyblion. Mae'r cynnig hwn yn ceisio adeiladu ar y safonau presennol gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant, gan arwain at fwy o ymgysylltiad a mwynhad i ddisgyblion wrth ddysgu ac effaith gadarnhaol ar les disgyblion.  Bydd y ddarpariaeth newydd yn sicrhau profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol ac amgylchedd meithringar o ofal, cymorth ac arweiniad sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion disgyblion gydag anghenion iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.

## Asesiadau Effaith

Cynhaliwyd yr asesiadau effaith cychwynnol canlynol fel rhan o'r cynnig hwn ac mae'r crynodebau isod wedi'u gwireddu. Mae asesiadau effaith yn ddogfennau

gwaith a gellir eu diweddaru drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiadau effaith.

**Asesiad Effaith Integredig**
Mae asesiad effaith integredig cychwynnol wedi'i gynnal mewn perthynas ag effeithiau posibl ar sawl agwedd gan gynnwys Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae adroddiad yr asesiad effaith integredig yn cyflwyno gwybodaeth a sicrwydd ynghylch sut, wrth wneud penderfyniadau, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau a'n hymrwymiadau mewn perthynas â deddfwriaeth, blaenoriaethau a strategaethau ynghylch y cynnig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol yn yr asesiad cychwynnol.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**
Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg cychwynnol wedi'i gynnal mewn perthynas ag effeithiau posibl ar y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynnig hwn yn cysylltu â'r amcanion CSCA canlynol:

**Amcan 6:**
Cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Amcan 7:**
Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ceisio archwilio i ba raddau y mae'r cynnig yn cefnogi targedau'r CSCA a sut y gallai'r cynnig ehangu neu leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae asesiad cychwynnol wedi canfod bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr ymrwymiad presennol i'r Gymraeg a'r defnydd ohoni, ond mae'n cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i fynd i'r afael â diffygion yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ADY ac uwchsgilio staff i liniaru unrhyw effaith negyddol.

Bydd gwaith parhaus mewn perthynas â'n hamcanion CSCA yn lleihau ac yn lliniaru unrhyw effeithiau posibl o'r cynnig wrth i ni barhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor a Cymraeg 2050.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**
Mae'r asesiad o'r effaith ar y gymuned cychwynnol wedi nodi y bydd effaith gadarnhaol ar y gymuned gan y bydd y ddarpariaeth newydd yn gallu darparu amgylchedd dysgu mwy pwrpasol, cefnogol ac effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth a sylweddol.

**Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth**
Mae canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth cychwynnol yn dangos bod y cynnig yn ymarferol, ac nad oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol wedi'u nodi yn yr asesiad cychwynnol. Cydnabyddir fodd bynnag y gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch y safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd. Felly, mae'r Cyngor yn gweithio gydag arbenigwyr allweddol a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt i ddeall y

gofynion a lliniaru unrhyw dagfeydd traffig neu broblemau parcio posibl. Byddai'r prosiect yn symud ymlaen gan ystyried gofynion cludiant a pharcio'n ofalus.

Darperir cludiant am ddim i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cludiant. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y trefniant hwn. Bydd cludiant yn parhau yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.

## Rhan D - Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi gwybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses hon yn dilyn canllawiau rheoleiddiol fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru.

**Pwy fydd yn rhan o'r ymgynghoriad?**
Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026 (Rhif Dogfen Cod Statudol 001/2026), mae'n rhaid rhoi gwybod i'r canlynol drwy lythyr neu e-bost bod y ddogfen ymgynghori ar gael, a gallant gael copi caled ar gais os ydynt yn dymuno:

a) Rhieni (a lle bo'n bosibl darpar rieni), gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ar hyn o bryd ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn ei bod yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion
b) Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno
c) Aelodau staff ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn ei bod yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion
d) Yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn ei bod yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion (gan gynnwys timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol)
e) Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys y rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynigydd o'r farn ei fod yn debygol o gael ei effeithio gan y cynigion, gan gynnwys, yn achos DDdY pwrpasol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli dysgwyr ag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion
f) Yr Eglwys yng Nghymru a'r Awdurdod Esgobaethol Catholig ar gyfer ardal unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion
g) Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn ei bod yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion
h) Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn ei bod yn debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion
i) Gweinidogion Cymru
j) Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir/y bwriedir ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
k) Estyn
l) Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
m) Y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol

n) Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
o) Unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
p) Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maent yn bodoli
q) Gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru
r) Yn achos cynigion sy'n effeithio ar DDdY, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol y mae'r cynigydd o'r farn bod ganddynt fuddiant
s) Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol sy'n destun y cynigion
t) Yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr
u) Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith.

Yn unol â'r rhestr uchod, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn anfon e-bost at y rhanddeiliaid canlynol mewn perthynas â'r cynnig hwn:

a) Pob ysgol yn Wrecsam, y gofynnir iddynt ddosbarthu'r dogfennau perthnasol i rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid eu dysgwyr a, lle bo'n bosibl, darpar rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.
b) Pob ysgol yn Wrecsam, y gofynnir iddynt ddosbarthu'r dogfennau perthnasol i aelodau o staff.
c) Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
d) Timau Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Wrecsam.
e) Awdurdodau Lleol eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
f) Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaethau Catholig
g) Holl Gyrff Llywodraethu Wrecsam
h) Gweinidogion Cymru ac Aelodau Perthnasol Y Senedd
i) Aelodau Seneddol Lleol: AS Wrecsam, AS Gogledd Clwyd, AS Dwyrain Clwyd, AS Maldwyn a Glyndwr.
j) Estyn
k) Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff
l) Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
m) Cyngor Cymuned Gwersyllt
n) Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Darparwyr Meithrinfeydd Annibynnol Lleol, Cylchoedd Chwarae, Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg, Gwasanaeth Hawl Bore Oes/Dechrau'n Deg Wrecsam, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru), Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru
o) Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Senedd yr Ifanc Wrecsam, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
p) Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Wrecsam, Tîm Cynhwysiant ac ADY Wrecsam, Tîm ADY Blynyddoedd Cynnar Wrecsam

q) Iechyd, gan gynnwys y Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith, Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, Gwasanaeth Ffisiotherapi, Gwasanaeth Datblygu Cyn Ysgol, paediatreg, Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd Gogledd-ddwyrain Cymru, SNAP Cymru
r) Darpariaethau Arbenigol Perthnasol y Tu Allan i'r Sir
s) Coleg Cambria
t) Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG, Mudiad Meithrin, Comisiynydd y Gymraeg, Swyddog Strategol y Gymraeg Wrecsam

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, ac mae'r ymgynghoriad yn agored i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.

**Amserlen o Ddyddiadau Allweddol**
Sylwch y gallai amserlenni ymgynghori newid. Yn yr achos hwn, byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

| Digwyddiad | Dyddiadau |
|---|---|
| Y Cyfnod Ymgynghori<br><br>Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch gyflwyno eich barn drwy:<br><br>• Fynychu'r sesiynau galw heibio (bydd nodiadau'n cael eu cymryd)<br>• Cwblhau’r arolwg ar-lein<br>• Ysgrifennu neu anfon e-bost at y Cyngor<br>• Llenwi'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y llyfryn hwn | Dydd Mawrth 2 Mehefin 2026<br>i<br>Dydd Iau 16 Gorffennaf 2026 |
| Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol | 8 Medi 2026 |
| Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi a’r Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dechrau | 16 Tachwedd 2026 |
| Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dod i ben | 16 Rhagfyr 2026 |
| Bwrdd Gweithredol yn dod i Benderfyniad Terfynol ar y Cynnig | 9 Chwefror 2027 |
| Cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad i Ymgyngoreion | Mawrth 2027 |
| Gweithredu'r Cynnig | Medi 2027 |

**Y Cyfnod Ymgynghori**
Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Mawrth 2 Mehefin 2026 a bydd yn dod i ben ddydd Iau 16 Gorffennaf 2026.

**Ystyried eich Barn**
Mae sawl ffordd y gallwch gyfleu eich barn, gan gynnwys:

- Cwblhau'r arolwg ar-lein
- Dychwelyd y ffurflen ymateb y gellir gofyn amdani o'r cyfeiriad isod.
- Anfon eich barn drwy e-bost at ALNschoolconsultation@wrexham.gov.uk

Fel arall, gallwch gyflwyno eich barn yn ysgrifenedig i: Y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR.

Oherwydd nifer yr ymatebion a dderbyniwn wrth ymgynghori ar opsiynau, ni fyddwn yn gallu cydnabod ymatebion ysgrifenedig nac ymrwymo i ohebiaeth â phartïon â diddordeb naill ai yn ystod neu ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd themâu allweddol gydag enghreifftiau o sylwadau a wneir ar gael i Aelodau Etholedig at ddibenion penderfynu, a byddant hefyd yn cael eu hateb drwy gyhoeddi adroddiad ôl-ymgynghori.

Cynghorwn yn gwrtais na fydd unrhyw sylwadau yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar hyn o bryd.

**Cyfarfodydd Ymgynghori**
Gallwch hefyd alw i'n gweld ni yn y sesiynau galw heibio a fydd yn digwydd yn y gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn y sesiynau hyn byddwch yn gallu siarad â swyddogion o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau.

Sylwch y gallai amserlenni ymgynghori a sesiynau galw heibio newid. Yn yr achos hwn, byddai unrhyw newidiadau yn cael eu cyhoeddi.

**Amserlen y Sesiynau Galw Heibio**

| Natur y Sesiwn | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 16 Mehefin 2026 | 9.30am-11.30am | Canolfan Adnoddau Cymunedol Gwersyllt<br>Ail Rodfa<br>Gwersyllt<br>Wrecsam<br>LL11 4ED |
| Sesiwn Rithwir* | Dydd Iau 2 Gorffennaf 2026 | 9.30am-10.00am | Dolen ar-lein i'w rhannu trwy e-bost |
| Sesiwn Rithwir* | Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2026 | 5.00pm-5.30pm | Dolen ar-lein i'w rhannu trwy e-bost |

*I ofyn am fynediad i'r sesiwn rithwir, anfonwch e-bost at:
ALNschoolconsultation@wrexham.gov.uk

Cofrestrwch eich diddordeb ar gyfer y sesiwn galw heibio rithwir erbyn dydd Gwener 19 Mehefin 2026 fan bellaf. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i ni anfon dolen rithwir a chyfarwyddiadau atoch cyn y sesiwn.

**Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc**
Mae Cyngor Wrecsam wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc lywio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael i bob plentyn a pherson ifanc i'w galluogi i roi eu barn. Bydd y Cyngor yn ceisio barn disgyblion mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy arolwg ar-lein. Mae'r fersiwn i blant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori wedi'i hysgrifennu'n benodol i alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddeall ac ymgysylltu â'r broses ymgynghori ffurfiol yn well. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei chynnwys yn y ddogfen ôl-ymgynghori.

**Adroddiad yr Ymgynghoriad**
O fewn 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori (ac yn sicr cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad a fydd yn:

- Crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion.
- Ymateb i'r rhain drwy roi esboniad, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol.
- Nodi manylion rhinweddau cyffredinol y cynnig fel yr amlygwyd gan Estyn yn eu hymateb.

Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol neu'r Corff Llywodraethu ynghylch sut i fwrw ymlaen (h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a pharhau â'r sefyllfa bresennol neu wneud newidiadau sylweddol i'r cynnig ac ail-ymgynghori).

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael eu hamlygu yn adroddiad yr ymgynghoriad, a'i fod yn hygyrch iddynt.

Bydd adroddiad yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a bydd yn destun yr holl wiriadau hygyrchedd i sicrhau ei fod yn hygyrch i bob ymgynghorai. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais.

**Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol**
Mae hyn yn amodol ar gymeradwyo'r Adroddiad Ôl-ymgynghori sydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ar 8 Medi 2026. Sylwch y gall y dyddiad hwn newid.

Os derbynnir yr argymhelliad, yna bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau ar 16 Tachwedd 2026. Sylwch y gall y dyddiad hwn newid. Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei arddangos wrth fynedfa'r lleoliad.

**Cyfnod Gwrthwynebu Statudol**

| | |
|---|---|
| **Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi a'r Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dechrau** | 16 Tachwedd 2026 |
| **Cyfnod Gwrthwynebu Ffurfiol yn dod i ben** | 16 Rhagfyr 2026 |

Sylwch y gall y dyddiadau hyn newid.

Os codir unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, cyhoeddir adroddiad a bydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

Hysbysiad statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Gwneir hyn dim ond os bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â chynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Gofynnwn yn garedig i ymgyngoreion ysgrifennu atom yn ystod y cyfnod gwrthwynebu dim ond os oes ganddynt wrthwynebiad swyddogol i'r hysbysiad statudol. Bydd yn rhaid trin unrhyw sylwadau cadarnhaol a dderbynnir yn ystod y cyfnod hwn fel gwrthwynebiadau hyd yn oed os ydynt o blaid y cynnig.

Gall ymgyngoreion gyflwyno eu gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol drwy e-bostio ALNschoolconsultation@wrexham.gov.uk neu drwy ysgrifennu at: Y Tîm Mynediad a Lleoedd Ysgol, yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR.

**Penderfynu ar y Cynnig**
Bydd canlyniadau'r Hysbysiad Statudol yn cael eu rhoi gerbron y Bwrdd Gweithredol ym mis Chwefror 2027 a chytunir ar benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig. Sylwch y gall y dyddiad uchod newid.

**Hysbysiad o'r Penderfyniad**
Yn amodol ar weithredu'r cynnig, bydd hysbysiad penderfynu ar gael i bob ymgynghorai. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.